Cyngor Cymuned Cwm Cadnant.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Plwyf, Llandegfan, Nos FAWRTH, 12fed TACHWEDD 2019.

COFNOD:

1813. PRESENNOL:
Cynghorydd Mr Idris Alan Jones (Cadeirydd), Mr Alun Roberts, Mrs Jean Davidson, Mrs Nia Wyn Foulkes, Mrs Nia Wyn Jones, Ms Joan Kirkham, Mr Tom Cooke, Mr Eurfryn Davies, Mr John Wyn Griffith, Mr Gareth Griffiths, Mr John Griffiths a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

1814. YMDDIHEURIADAU:
Cynghorydd Sirol Mr Carwyn Jones.

1815. CROESO.

1815.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng Idris Alan Jones.

1816. DATGAN DIDDORDEB PERSONOL / RHAGFARNOL.

1816.1 Datganodd Cynghorydd Mr John W Griffith datgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu yn y rhestr y ceisiadau cynllunio sydd yn cael ei drafod oherwydd ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir – roedd wedi cael caniatad arbennig i aros yn yr ystafell er mwyn gwrando ar sylwadau ond ni gymerodd rhan yn y trafodaethau.

1817. MATERION YN CODI O'R CYFARFODYDD BLAENOROL.

1817.1 **Materion Heddlu** – nodwyd nad oedd y sefyllfa wedi dirywio ers y cyfarfod agored.

1817.2 **Sul y Cofio** – diolchwyd i bawb am drefnu Sul y Cofio ac am glirio safle y Gofeb. Yn arbennig Cynghorwraig Nia Foulkes am drefnu y Gwasanaeth.

1817.3 **Cynllun Arfaethedig Lliniaru Llifogydd Llansadwrn** – nodwyd fod y gwaith wedi cychwyn ond fod y tywydd yn rhwystredig.

1817.4 **Taflunydd Newydd** – cadarnhad gan y Cadeirydd ei fod wedi siarad gyda Cwmni Mad Sound & Lighting ac fod **gosod y taflunydd newydd mewn llaw.**

Arwyddo.....

1817.5 **Mat Offer See-Saw, Llandegfan** – dim newid yn y sefyllfa – roedd **y Clerc wedi gysylltu gyda Cwmni G L Jones, Bethesda er mwyn ei ddatrys.**

1817.6 **Cae Chwarae Llansadwrn** – dywedodd y Clerc fod angen gosod cyllideb ar gyfer atgyweirio offer y Cae Chwarae er mwyn ufuddhau gofynion yr archwiliad blynyddol ac fod y Pwyllgor Cyllid wedi cytuno I wneud hyn ar gyfer 2020-2021. Unwaith y bydd gwaith lliniaru llifogydd wedi ei orffen, bydd angen torri y coed a thacluso'r safle.

1817.7 **Materion Llwybrau** – dywedodd y Clerc fod sylwadau adroddwyd yn Mis Medi 2019 a chafwyd oddiwrth Mr Keith Owen yn derbyn sylw.

1817.8 **Hysbysfwrdd ger Siop Maldwyn** – nodwyd fod safle ail-leoli'r Hysbysfwrdd mewn llaw.

1817.9 **Seddi Newydd y Cysgodfannau – dywedodd y Clerc y bydd y gwaith yma yn dechrau yn y Gwanwyn 2020.**

1817.10 **Materion Pwyllgor Cyllid – dosbarthir cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 12/11/2019 cyn gynted a phosib.**

1817.11 **Materion Pwyllgor y Neuadd - dosbarthir cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 5/11/2019 cyn gynted a phosib.**

1818. MATERION CYLLID & GWEINYDDU.

1818.1 Cafwyd adroddiad llawn y Clerc o Daliadau a Derbyniadau Cyfrifon y Cyngor a'r Neuadd am Mis Hydref 2019 ac fe arwyddwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd gan cynnwys cysoniad a datganiad Banc y Cyngor.

1819. CEISIADAU & PENDERFYNIADAU/MATERION CYNLLUNIO NEWYDD.

1819.1 Cais Llawn Addasu & Ehangu yn: **Ger y Dwr, Glyn Garth, Porthaethwy.** Rhif Cais: HHP/2019/265. **Penderfyniad: DIM SYLWADAU.**

1819.2 Cais Gwaith ar DRI (3) goeden a disgyn UN (1) Coeden wedi eu gwarchod gan Gorchymyn Diogelu Coed yn: Gerddi Glyngarth, Ffordd Biwmares, Porthaethwy. Rhif Cais: TPO/2019/18: **Penderfyniad: DIM SYLWADAU.**

1819.3 Cais Nyth y Dryw, Llandegfan (FPL/2019/194) – WEDI EI DYNNU YN NOL.

Arwyddo.....

1819.4 Cais Addasu & Ehangu – Wenllys, Lon Ganol, Llandegfan (HHP/2019/241) – **CANIATAD**.

1819.5 Cais Llawn Ynys Y Big, Porthaethwy (FPL/2019/198) – **GWRTHODWYD.** Nodwyd y Clerc ei fod wedi derbyn ac yn ymwybodol am erthygl yn y Wasg gyda sylwadau aelod o'r Cyngor Cymuned. Nid oedd yn hapus gan nad oedd y Cyngor wedi cael cyfle I gywiro a cadarnhau cofnodion sylwadau ynghylch a'r cais cynllunio yma. Atgoffwyd aelodau am y Cod Ymddygiad ac fod yno cyfle iddynt datgan diddordeb o flaen llaw.

1820. GOHEBIAETH.

1820.1 **Hanner Marathon Ynys Mon – cadarnhad fod y digwyddiad ar y 1af Mawrth 2020 ac y bydd rhai ffyrdd ar gau dros dro am o leiaf 4 awr.**

1820.2 **Blaenrhaglen Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir** – er gwybodaeth yn unig.

1821. ADRODDIADAU Y CYNGHORWYR SIROL.

1821.1 Angen cyfarfod ar y cyd gyda Cynghorau Llanddona a Llangoed er mwyn trafod Project Cwlwm Seiriol – i'w chynnal yn Llanddona. Y Cynghorydd Sirol Carwyn Jones i wneud y trefniadau.

1821.2 Adroddiad Presennol ar Ad-drefnu Ysgolion ar yr Ynys.

1821.3 Adroddiad sawl materion priffyrdd o amgylch y pentref. Nodwyd, yn arbennig, na fydd Bysiau yr Ysgol yn ddefnyddio Lon Pedair Groeslon o hyn ymlaen. Hefyd, dangoswyd pryder y dylai anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd gostwng cyflymdra o'r Hen Bentref hyd at yr Allt Goch Fawr (B5109).

1821.4 Dogfen Cynllun Drafft - Ymgynghori ar newid yn yr Hinsawdd - disgwylir datganiad ym mis Rhagfyr 2019 a ddygir gerbron cyngor llawn y Cyngor Sir

1822. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – Nos Fawrth 14 IONAWR 2020.

1822.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod.
Clowyd y cyfarfod am 8:40yh.

Cwm Cadnant Community Council.

Minutes of the Monthly Meeting of the Council held at the Parish Hall, Llandegfan, TUESDAY, 12th NOVEMBER 2019.

RECORD:

1813. PRESENT:
Councillors Mr Idris Alan Jones (Chair), Mr Alun Roberts, Mrs Jean Davidson, Mrs Nia Wyn Foulkes, Mrs Nia Wyn Jones, Ms Joan Kirkham, Mr Tom Cooke, Mr Eurfryn Davies, Mr John Wyn Griffith, Mr Gareth Griffiths, Mr John Griffiths and Mr J Alun Foulkes (Clerk).

1814. APOLOGIES:
County Councillor Mr Carwyn Jones.

1815. WELCOME.

1815.1 The Chairman, Cllr Idris Alan Jones, welcomed everyone to the meeting.

1816. DECLARATION OF PERSONAL / PREVIOUS INTEREST.

1816.1 Councillor Mr John W. Griffith declared a personal and prejudicial interest in the list of planning applications being discussed as he was a member of the County Council's Planning Committee - he had been granted special dispensation to remain in the room in order to listen to comments but did not participate in the discussions.

1817. MATTERS ARISING FROM PREVIOUS MEETINGS.

1817.1 Police Matters - it was noted that the situation had not deteriorated since the open meeting.

1817.2 Remembrance Sunday - everyone was thanked for organising Remembrance Sunday and for clearing the Memorial site. In particular Councilor Nia Foulkes for organising the Service.

1817.3 Llansadwrn Flood Alleviation Scheme - it was noted that work had started but the weather was frustrating.

1817.4 New Projector - confirmation from the Chairman that he had spoken to Mad Sound & Lighting Company and that installing the new projector was in hand.

Sign.....

1817.5 See-Saw Equipment Mat, Llandegfan - no change - Clerk had contacted G L Jones Company, Bethesda for resolution.

1817.6 Llansadwrn Playing Field - the Clerk advised that a budget for the repair of the Playground equipment needed to be set to comply with the requirements of the annual audit and that the Finance Committee had agreed to do this for 2020-2021 once the flood alleviation works have been completed .Finally, the trees will need to be felled and the site tidied up.

1817.7 Footpath Issues - the Clerk stated that comments reported in September 2019 received from Mr Keith Owen were being addressed.

1817.8 Notice Board near Maldwyn Stores - it was noted that the notice board relocation site was in hand.

1817.9 New Shelter Seats - the Clerk advised that this work will commence in Spring 2020.

1817.10 Finance Committee Matters - the minutes of the meeting held on 12/11/2019 will be circulated as soon as possible.

1817.11 Hall Committee Matters - minutes of meeting held 5/11/2019 will be circulated as soon as possible.

1818. FINANCE & ADMINISTRATIVE ISSUES.

1818.1 The Clerk's full report of the Payments and Receipts of the Council and Hall Accounts for October 2019 was received and signed by the Chairman including the reconciliation and statement of the Council Bank.

1819. NEW PLANNING APPLICATIONS & DECISIONS / MATTERS.

1819.1 Full Application for Alterations & Extensions at: Near the Ger y Dwr, Glyn Garth, Menai Bridge.
Application No: HHP / 2019/265. Decision: NO REPRESENTATIONS.

1819.2 Work Application for THREE (3) trees and fell ONE (1) Tree Protection Tree Protection at: Glyngarth Gardens, Beaumaris Road, Menai Bridge.
Application No: TPO / 2019/18: Resolution: NO REPRESENTATIONS.

1819.3 Nyth y Dryw, Llandegfan (FPL / 2019/194) - WITHDRAWN.

Sign..... ..

1819.4 **Conversion & Extension Application - Wenllys, Lon Ganol, Llandegfan (HHP / 2019/241) - GRANTED.**

1819.5 **Full Application for Ynys y Big, Menai Bridge (FPL / 2019/198) - REFUSED. The Clerk noted that he had received and was aware of an article in the Press with the comments of a member of the Community Council. He was not happy as the Council had not had the opportunity to correct and confirm the records of representations regarding this planning application. Members were reminded of the Code of Conduct and that there was an opportunity for them to declare an interest in advance.**

1820. CORRESPONDENCE.

1820.1 Anglesey Half Marathon - confirmation that the event is on 1st March 2020 and that some roads will be temporarily closed for at least 4 hours.

1820.2 County Council Executive Committee Forward Program - for information only.

1821. REPORTS OF THE COUNTY COUNCILORS.

1821.1 Need to meet jointly with Llanddona and Llangoed Councils to discuss the Cwlwm Seiriol Project - to be held in Llanddona. County Councilor Carwyn Jones to make arrangements.

1821.2 Present Report on School Reorganization on the Island.

1821.3 Report of several highway issues around the village. It was noted, in particular, that the School Bus route will no longer use Lon Pedair Groeslon. Concern was also expressed that sending a letter to the Highways Department should be sent applying to reduce speed from the Old Village to Allt Goch Fawr (B5109).

1821.4 Draft Plan Document - Climate Change Consultation - a statement is expected in December 2019 which will be brought before the full council of the County Council

1822. DATE OF NEXT MEETING - Tuesday 14 JANUARY 2020.

1822.1 The Chairman thanked members for attending the meeting. The meeting closed at 8:40 pm.

Sign..... .. Chairman ..... Date.